

Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2014

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Steve George

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8421

deisebau@cymru.gov.uk

Agenda – Dogfennau Ategol

Members' Brief

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (Tudalennau 1 – 20)

P-04-571 Trin Anemia Niweidiol (Tudalennau 21 – 22)

P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith (Tudalennau 23 – 29)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

BRIEFING

The Pernicious Anaemia Society is the only registered charity in the world that offers Information and Support to patients with Pernicious Anaemia and their families and friends. Pernicious Anaemia means the patient is unable to absorb Vitamin B₁₂ from food which means he or she is unable to produce healthy red blood cells and this leads to a wide range of symptoms including shortage of breath, extreme tiredness, memory loss, confusion and irrational behaviour.

The society has been successful in bringing to the attention of decision makers in the world of health and medicine that there are serious problems with the way in which Pernicious Anaemia is diagnosed. Misdiagnosis is rife:

21% of our members waited over two years for a correct diagnosis.

19% waited over five years.

14% waited over ten years to be told the reason for their symptoms.

Common misdiagnoses include: Chronic Fatigue Syndrome, Depression, Hypochondria, Multiple Sclerosis (left undiagnosed and untreated PA leads to severe and irreversible nerve damage), Psychosis.

Thankfully, following a series of meetings with officials from the Dept. of Health, new Guidelines on treating B₁₂ Deficiency and Folate were produced in May 2014. The new Guidelines highlight the problems with the current test used to diagnose B₁₂ Status in patients and whether that deficiency is caused by Pernicious Anaemia.

Now we want to highlight the problems with patients being treated for Pernicious Anaemia. Treatment involves replacement therapy injections of vitamin B₁₂ which is extremely cheap and extremely safe. This is what we know:

Injections were prescribed every month in the 1960's, this was changed to every two months in 1974 and then to every three months in 1984.

By far the biggest cause of complaint by members is that they cannot get a treatment regimen based on their needs and often they have to suffer for two months before getting their injection. When they experience a return of the symptoms patients suffer problems in the workplace and at home.

Patients who need more frequent injections than others are routinely refused these by their GP. Most doctors will believe that the patient is 'imagining' the return of the symptoms and will offer antidepressants. Often it is the patient's family and friend who will have noticed a return of the patient's symptoms long before their next injection is due.

Often the patient's blood will show 'adequate' levels of B₁₂ in their blood which endorses their opinion. But we now know that there are different types of B₁₂ (active and inactive) that the current test does not distinguish between.

Patients who need more frequent injections are then forced to explore a variety of solutions:

They can pay for injections in the private sector ('celebrities' do this) or turn to others who provide the injections including hairdressers and fitness instructors.

They buy forms of B₁₂ injections from the internet (totally advised against by the PA Society)

They buy nasal sprays, skin patches, sub-lingual drops and sprays from various sources including high street health shops (none of these alternative forms have been evaluated)

They travel to mainland Europe where the injections are available 'over the counter' at pharmacies in most countries – they then inject themselves without receiving any training and without using pre-injection wipes or lockable sharps bins

They undergo Intravenous Infusions where a bag full of B₁₂ is drip fed into a vein (a favourite of Simon Callow et al)

Or

They do nothing and suffer until their next injection is due.

WHAT DO WE WANT

We want someone who is professionally qualified to carry out a thorough Review of the way in which patients who have Pernicious Anaemia are treated and hopefully introduce a treatment regimen that is based on the individual needs of the patients.

Note – the PA Society is currently working with three teams of clinical researchers in four different universities to try to understand why some patients need more frequent injections than others.

The Pernicious Anaemia Society has offered a Membership Package for the past four years. We now have just a few short of 10,000 members from all parts of the world. We are based in Bridgend south Wales.

We are run entirely by volunteers.

B₁₂ Deficiency could be a problem for between 40-50% of the general population.

The symptoms of B₁₂ Deficiency are insidious and are often associated with advancing age.

The youngest member of the PA Society is 18 months', our oldest member has just celebrated her 100th Birthday.

ENDS

Further information from Martyn Hooper, Chairman, the Pernicious Anaemia Society,
Level 4, Brackla House, Brackla Street, Bridgend, CF31 1BZ

01656 769717

07545897608

P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith

Annwyl aelodau'r Pwyllgor Deisebau,

Rydym yn falch o wybod y byddwch yn ystyried y ddeiseb *Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith* yn eich cyfarfod nesaf ar 29 Ebrill 2014, ac mawr obeithiwn y byddwch yn gallu penderfynu gweithredu ymhellach arni yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau cymunedol sy'n gweithredu er budd yr iaith Gymraeg yn lleol ac maent yn darparu ystod eang o weithgareddau a phrosiectau cyfrwng Gymraeg i bobl o bob oedran a chefnidir yng nghymunedau Cymru. Mae adroddiad Prifysgol Caerdydd, a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru, yn datgan y dylai gwaith y Mentrau barhau a datblygu. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nad yw'r Mentrau yn derbyn cyllid craidd digonol i weithredu i'w llawn botensial. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma [http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130130-
adroddiad-y-mentrau-cy.pdf](http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130130-adroddiad-y-mentrau-cy.pdf)

Penderfynodd Dyfodol i'r Iaith gyflwyno'r ddeiseb i gefnogi'r Mentrau yn dilyn yr arolwg o'u gwaith er mwyn galw ar y Cynulliad i ofyn i Llywodraeth Cymru gryfhau ei chefnogaeth i'r Mentrau, ac ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol yn dilyn yr arolwg hwnnw.

Roeddem yn falch iawn felly i glywed y Prif Weinidog yn datgan ei gefnogaeth i'r Mentrau Iaith mewn sawl datganiad yn ddiweddar, ac ar lawr y Cynulliad, yn dweud ei fod yn ystyried y Mentrau yn "offerynnau pwerus a gwerthfawr", a'i fod am "sicrhau bod eu gwaith yn parhau yn y dyfodol." Rydym yn credu nawr ei bod yn amserol bod y Prif Weinidog a'r Llywodraeth yn gweithredu er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i ddyfodol y Mentrau a'r iaith Gymraeg trwy fuddsoddi ynddynt.

Fe fyddwn ni'n falch iawn i drafod ymhellach gyda chi, ac fe fyddwn yn hapus iawn i ddod i un o'ch cyfarfodydd yn y dyfodol agos er mwyn trafod sut medrwn chi fel Pwyllgor ein cynorthwyo i gefnogi'r Mentrau Iaith er budd y Gymraeg ar draws Cymru.

Pob dymuniad da,

Heini Gruffudd

Mentrau

laith

Cymru

Mentrau Iaith Cymru

Y Sgwâr

Llanrwst

LL26 0LG

post@mentrauliaith.org

01443 493715 / 01492 642796

9 Gorffennaf 2014

Llythyr at William Powell AC, Cadeirydd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Annwyl Mr Powell

Cyflwynir y ddogfen hon gan Mentrau Iaith Cymru, ar ran y Mentrau Iaith, mewn ymateb i lythyr Carwyn Jones AC i'r Pwyllgor Deisebau ynglŷn â'r ddeiseb a gyflwynwyd gan Dyfodol i'r Iaith ym mis Ebrill. Mawr obeithiwn y bydd modd i'r Pwyllgor ystyried ein sylwadau wrth iddynt ystyried llythyr y Prif Weinidog yn ystod eich cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2014.

Rydym yn croesawu sylwadau'r Prif Weinidog bod y Mentrau'n "arf bwerus a gwerthfawr i hyrwyddo'r Gymraeg" ac yn hynod o falch ei fod ef, a Llywodraeth Cymru, yn cydnabod pwysigrwydd gwaith y Mentrau yn eu cymunedau hyd a lled Cymru. Rydym hefyd wedi nodi cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth, sef *Bwrw 'Mlaen*, sy'n egluro blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, hyd at 2017. Cyhoeddwyd *Bwrw 'Mlaen* yn dilyn cyfnod hir o ymgynghori ac adolygu - ac rydym yn falch i weld gwaith Llywodraeth Cymru er lles y Gymraeg yn ein cymunedau yn datblygu. Bydd yn bwysig hefyd, wrth gwrs, i sicrhau gwireddu strategaeth iaith y Llywodraeth (sef *Iaith Fyw: Iaith Byw*) yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'r materion a grybwyllir yn *Bwrw 'Mlaen*.

Fel mae'r Prif Weinidog yn cydnabod yn ei lythyr, mae'r Mentrau Iaith erbyn hyn yn rhan annatod o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Gyda chymorth y Mentrau, mae mwy a mwy o gymunedau'n gweithredu er lles y Gymraeg ar hyd a lled Cymru, trwy adnabod cyfleoedd, anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae gwaith y Mentrau yn cyffwrdd ar bob agwedd o fywyd cymunedol, gan ddelio â chroestoriad eang o bobl o bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol. Rhyngddynt, mae'r Mentrau yn cydweithio gyda dros 1,300 o wirfoddolwyr i gynnal 16,000 o weithgareddau i 160,000 o gyfranogwyr bob blwyddyn. Mae'n bwysig nodi mai'r Mentrau Iaith yw'r unig gyrff sy'n ymhél â gwaith a phrosiectau sy'n cyffwrdd â phob maes blaenoriaeth yn strategaeth iaith y Llywodraeth (sef Plant a Phobl Ifanc, Teuluoedd, Y Gymuned, Gwasanaethau, y Gweithle a'r Seilwaith). Er mwyn cyflawni hyn maent yn ymgymryd â gwaith a phrosiectau mewn nifer eang o feysydd, yn amrywio o gyfleoedd hamdden a chwarae, hyfforddiant, gwyliau, cefnogaeth i ddysgwyr, y celfyddydau, datblygu cymunedol a datblygu economaidd.

Er gwaethaf llwyddiannau'r Mentrau, mae'r adolygiad o'u gwaith a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014 gan Brifysgol Caerdydd yn nodi bod potensial i'w gwaith i ddatblygu ac ehangu yn y dyfodol. Nodwyd bod angen buddsoddiad pellach ynddynt, gan gynnwys o ran hyfforddiant - a datblygu eu strwythurau rheoli a chynllunio. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, nodwyd bod angen isafswm lefel o gyllid craidd i bob menter er mwyn iddynt weithredu'n effeithiol. Fe nododd yr adolygiad bod anghysonderau yng nghyrhaeddiad a datblygiad y Mentrau, ac mae'n anorfod bod diffyg cyllid digonol ac anghysonderau rhwng y Mentrau o ran eu cyllid craidd wrth wraidd nifer o'r anghenion datblygu y mae'r adolygiad yn eu hadnabod.

Yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad o'u gwaith gan Brifysgol Caerdydd, fe baratôdd y Mentrau asesiad bras (o fewn yr amser byr a oedd ar gael iddynt i'w wneud) o'r adnoddau craidd sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i weithredu'n effeithiol, er mwyn gwasanaethu eu cymunedau a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. Fe gyhoeddodd Mentrau Iaith Cymru ymateb i'r adolygiad (gweler yr atodiad) a oedd yn cynnig bod angen £4.8m y flwyddyn ar y Mentrau, dros y tair blynedd nesaf, er mwyn iddynt gyrraedd yn agosach i'w potensial. Yn ogystal, tua'r un adeg fe gyflwynwyd y ddeiseb "Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith" i'r Pwyllgor Deisebau gan Dyfodol i'r Iaith. Fe lofnodwyd hwnnw gan dros 1,800 o unigolion ar draws Cymru, gyda'r ddeiseb yn galw ar y Cynulliad i ofyn i'r Llywodraeth sicrhau bod y cyllid a roddir i'r Mentrau yn adlewyrchu'n deg y dasg sy'n ein hwynebu, ac i gynyddu'r cyllid hwnnw'n sylweddol.

Roedd yn galonogol, felly, i glywed y Prif Weinidog yn cyhoeddi, ar lawr y Senedd, ar 17 Mehefin, buddsoddiad pellach gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwaith y Mentrau yn ystod 2014-15 a 2015-16, gyda cyfanswm, dros y 2 flynedd, o £750,000 yn cael ei glustnodi ganddo ar gyfer y gwaith. Rydym yn croesawu'r adnoddau ychwanegol hyn, ac yn cytuno gyda'r Prif Weinidog bod angen datblygu a chryfhau gwaith y Mentrau trwy hyfforddiant - a rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac arfer da. Rydym eisoes wedi dechrau trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut i dargedu'r adnoddau ychwanegol er mwyn cryfhau strwythurau'r Mentrau ac i fuddsoddi mewn hyfforddiant pwrpasol. Rydym yn bwriadu parhau i gydweithio'n agos â nhw yn y dyfodol.

Hoffem gymryd y cyfle, fodd bynnag, i bwysleisio ein bod yn croesawu'r buddsoddiad hwn fel *cam cyntaf*, yn unig, yn y broses o ddatblygu gwaith y Mentrau er lles y Gymraeg yn ein cymunedau. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y bydd angen mwy o fuddsoddiad, a mwy o adnoddau, i gefnogi gwaith y Mentrau er mwyn cynyddu'r lefel o weithgarwch ar lawr gwlad i'r lefel a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r Mentrau'n derbyn £1.77m gan Llywodraeth Cymru, a gyda'r adnoddau ychwanegol dros y 18 mis nesaf a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog, fe fydd y cyllid hwnnw'n codi i £2.52m. Fel rydym yn egluro yn ein hymateb i'r adolygiad o waith y Mentrau, mae angen cyllid craidd o £4.8m y flwyddyn, ym marn y Mentrau, er mwyn iddynt weithredu'n effeithiol yn eu hardaloedd, gyda digon o adnoddau i ateb yr heriau mae'r Gymraeg yn eu hwynebu. Mae hyn £2.28m yn fwy na'r hyn a gynigir i ni ar hyn o bryd.

Credwn, felly, ei bod hi'n amserol i gomisiynu asesiad - i'w gynnal yn annibynnol o'r Llywodraeth - er mwyn dod i farn ynglŷn â'r adnoddau craidd sydd eu hangen ar y Mentrau er mwyn iddynt ddatblygu i'w potensial llawn. Ni wnaethpwyd hyn erioed o'r blaen ac, yn dilyn canlyniadau'r Cyfrifiad, mae'n fwy amlwg nag erioed fod angen sicrhau adnoddau digonol i gefnogi'r gwaith.

Rydym ni am gynorthwyo Llywodraeth Cymru i wireddu ei weledigaeth o "weld y Gymraeg yn ffynnu", gan arwain at gynyddu'r nifer, a'r canran, o bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn ei defnyddio fel rhan o'u bywydau bob dydd. Mae angen mwy o fuddsoddiad, a sicrwydd ariannol ar y mudiadau sy'n gweithredu er lles y Gymraeg er mwyn cyflawni hyn. Cydnabyddwn yn llwyr ein bod yn profi cyfnod economaidd heriol, ond nid yw achub y Gymraeg fel iaith gymunedol yn rhywbeth y gellir ei osod i'r neilltu, gan ddisgwyl dyddiau gwell. Fel yr oedd ein hymateb i adolygiad Prifysgol Caerdydd yn nodi, os bydd y Gymraeg yn colli tir fel iaith teuluoedd, cymunedau a phobl ifanc, bydd yr her o'i hadfer i'r cylchoedd bywyd hyn yn anodd iawn, os nad yn amhosibl.

Rydym ni am i bobl Cymru dderbyn yr un safon o wasanaeth gan y Mentrau Iaith, ble bynnag maen nhw'n byw. Nid oes modd cyfiawnhau buddsoddiad yng ngwaith y Mentrau sy'n amrywio o sir i sir.

Gofynnwn i'r Pwyllgor Deisebau i gytuno gyda geiriad y ddeiseb a gyflwynwyd gan Dyfodol i'r iaith - ac i gytuno hefyd:

- a) fod y Mentrau Iaith yn bartner pwysig yng nghyswllt strategaeth iaith y Llywodraeth; fod ganddynt rôl allweddol yng nghyswllt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ac y dylent barhau i fod yn brif bartner i'r Llywodraeth yng nghyswllt hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith.
- b) fod y Mentrau angen adnoddau ychwanegol, digonol a theg er mwyn iddynt fedru cynnig yr un safon o wasanaeth ym mhob rhan o Gymru.
- c) fod angen asesiad, i'w gynnal yn annibynnol o Lywodraeth Cymru, o'r adnoddau sydd eu hangen ar y Mentrau i wireddu eu potensial.
- ch) fod angen cynyddu'r adnoddau a gynigir i'r Mentrau ochr yn ochr â datblygu gweledigaeth cyffroes ar gyfer eu gwaith.
- d) fod angen i awdurdodau lleol Cymru cefnogi eu gwaith a chyfrnno'n deg at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt.

Fe fyddwn yn fwy na hapus i drafod yr uchod gyda'r Pwyllgor.

Gyda diolch,

M L L Davies

Meirion Llywelyn Davies
Cadeirydd Mentrau Iaith Cymru